

Doniau

I un fe roddodd bum cod o arian, i un arall ddwy, i un arall un, i bob un yn ôl ei allu, ac fe aeth oddi cartref.

Mathew 25: 15

EMYNAU

Mae Duw yn arddangos ei ddoniau yn y greadigaeth:

Tydi sy deilwng oll o'm cân,
fy Nghrëwr mawr a'm Duw;
dy ddoniau di o'm hamgylch maent
bob awr yr wyf yn byw.

David Charles (*Caneuon Ffydd*: 64)

Diolchwn i Dduw am bob dawn sydd gennym:

Am bob rhyw ddawn diolchwn ni,
am leisiau pur a glân,
am emyn hoff a'i eiriau cain
a pheraidd sain y gân.

W. Emlyn Jones (*Caneuon Ffydd*: 5)

Rho i ni'r ddawn i ryfeddu a gwerthfawrogi rhod y tymhorau:

Pan ddaw pob tymor yn ei dro
rhyfeddu wnawn at allu'r Iôr
yn creu amrywiaeth lliw a llun
ar faes a mynydd, tir a môr.

Rebecca Powell (*Caneuon Ffydd*: 81)

Moliannwn Dduw, y tirion Dad, am ei ddoniau tuag atom:

Ti, O Dduw, foliannwn
 am dy ddoniau rhad,
 mawr yw d'ofal tyner
 drosom, dirion Dad;
 llawn yw'r ddaear eto
 o'th drugaredd lân,
 llawn yw'n calon ninnau
 o ddiolchgar gân.

Spinther (*Caneuon Ffydd*: 127)

Cysegra ein doniau i helpu a chysuro ein cyd-ddynion:

Rho imi nerth i wneud fy rhan,
 i gario baich fy mrawd,
 i weini'n dirion ar y gwan
 a chynorthwyo'r tlawd.

E. A. Dingley *cyf.* Nantlais (*Caneuon Ffydd*: 805)

Canmolwn ddoniau'r rhai sy'n gallu trin y pren a hynny er dy glod:

Tydi sy'n galw'r pren
 o'r fesen yn ei bryd,
 a gwasgu haul a glaw
 canrifoedd ynddo 'nghyd:
 O cofia waith y gŵr â'r lli'
 a dorrodd bren i'th allor di.

Tomi Evans (*Caneuon Ffydd*: 820)

GWEDDĪAU

Diolchwn am bob dawn gan eu defnyddio er lles dynoliaeth:

Bendigwn dy enw mawr am y cyfoeth doniau sy'n perthyn i ni. Rydym i gyd yn wahanol, ond mae gan bob un ohonom ei gyfraniad er lles dynoliaeth. Amen.

Gareth Alban Davies

Cofiw'n am ddoniau y rhai nad ydynt yn enwog a boed i ni ymarfer y dalent a roddwyd i ni:

Ond na ad i ni anghofio'r rhai na adawodd enw ar eu hôl, y rhai distadl a ddefnyddiodd eu doniau cyffredin hyd eithaf eu gallu. Mae gan bawb ohonom ryw ddawn neu'i gilydd y gallwn ei datblygu. Boed inni beidio â chwerwi os na chawsom ddawn fawr neu dalent anghyffredin. Yn hytrach boed inni ymroi i ymarfer y dalent a roddwyd i ni. Amen.

John Owen

Gwyliwn rhag ofn i ni gamddefnyddio'r doniau a roddwyd i ni:

Diolch am y gwyddonydd a'i ddarganfyddiadau; am y ddawn i ddarganfod sut i wella a lleddfu poen; am y ddawn i drin y ddaear; y ddawn i ddod â thechnoleg fodern i afael gwareiddiad. Ond erys y tristwch, Arglwydd, fod camddefnyddio ar ddoniau fel hyn. Gwnawn fwy a mwy o arfau dinistriol; camddefnyddiwn ddefnyddiau crai ein byd; mae ein dyfeisgarwch yn dod â dinistr. Newidiwn ffordd o fyw'r canrifoedd yn y fforestydd, gan wneud y tlawd yn dlotach a'r cyfoethog yn gyfoethocach. Maddau i ni. Amen.

Gareth Alban Davies

Cofiw'n am y rhai hynny sydd wedi cysegru eu doniau i geisio trawsnewid y byd:

Diolchwn am bobl sydd wedi medru newid cyfeiriad hanes, y rhai hynny sydd wedi cysegru eu doniau i geisio gwneud ein byd yn lle gwell i fyw. Amen.

Mil a Mwy o Weddiâu

Rho inni'r ddawn i wneud ewyllys Duw a gwneud y byd yn well lle i fyw ynddo:

Gweddiwn, O Dduw, ein bod bob amser ac ar bob achlysur yn gwneud dy ewyllys di a hynny er mwyn gwneud y byd fel yr wyt eisiau iddo fod. Gyda'n gilydd fe allwn greu nefoedd a daear. Amen.

ADNODAU**Galwodd Iesu ei ddisgyblion i ddefnyddio’u doniau i’r eithaf:**

Wedi hynny penododd yr Arglwydd ddeuddeg a thrigain arall, a’u hanfon allan o’i flaen, bob yn ddau, i bob tref a man yr oedd ef ei hun am fynd iddynt.

Luc 10: 1

Mae’r ddameg yn ein hannog i ddefnyddio’n doniau i’r eithaf:

Oherwydd i bawb y mae ganddo y rhoddir, a bydd ar ben ei ddigon, ond oddi ar yr hwn nad oes ganddo fe gymerir hyd yn oed hynny sydd ganddo.

Mathew 25: 29

Mae’n doniau yn amrywio ond defnyddiwn hwy i wneud ein gorau:

A chan fod gennym ddoniau sy’n amrywio yn ôl y gras a roddwyd i ni, dylem eu harfer yn gyson â hynny. Os proffwydoliaeth yw dy ddawn, arfer hi yn gymesur â’th ffydd.

Rhufeiniaid 12: 6

Yr Ysbryd Glân yw rhoddwr y doniau; gwnawn yn fawr ohonynt:

yn ein purdeb, ein gwybodaeth, ein goddefgarwch a’n caredigrwydd; yn yr Ysbryd Glân ac yn ein cariad diragrith.

2 Corinthiaid 6: 6

Mae Duw wedi ysbrydoli Besalel fab Uri â phob dawn i wneud cywreinwaith:

Dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, “Edrych, yr wyf wedi dewis Besalel fab Uri, fab Hur, o lwyth Jwda, a’i lenwi ag ysbryd Duw, â doethineb a deall, â gwybodaeth a phob rhyw ddawn.”

Exodus 31: 1–3

Mae Paul yn annog dilynwyr Iesu yng Nghorinth i roi eu bryd ar y doniau dyrchafol:

Ond rhowch eich bryd ar y doniau gorau.
Ac yr wyf am ddangos i chwi ffordd ragorach fyth.

1 Corinthiaid 12: 31

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Nid maint na phwysigrwydd ein doniau sy'n bwysig ond y defnydd a wnawn ohonynt.

Gorau dawn, deall.

Heb ddysg, heb ddawn
Heb ddawn, heb ddoethineb
Heb ddoethineb, heb Dduw
Heb Dduw, heb ddim, Duw a digon.

Nid yw neb yn gwerthfawrogi dawn sydd wedi'i chuddio.

Erasmus

Athro: Pan oedd y prif weinidog yr un oed â ti, roedd wedi defnyddio pob dawn oedd ganddo ac ef oedd y cyntaf yn y dosbarth bob tro.
Plentyn: O, ia! A phan oedd yr un oed â chi, fo oedd prif weinidog y wlad 'ma!

Mae'r hwn sy'n lladd amser yn cyflawni hunanladdiad.